Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

11eg Ebrill 2017

Annwyl Gyfaill,

**Ynghylch: Y Ffordd Iawn: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant**

Rydyn ni'n byw mewn oes lle mae disgwyl i arweinyddion y sector cyhoeddus yng Nghymru estyn y pwrs cyhoeddus mewn modd na welwyd ei debyg erioed o'r blaen. Mae cael hyd i ffyrdd newydd o ddelio gyda gofynion cynyddol ac adnoddau cyfyngedig yn her rwyf am helpu i'w goresgyn.

Bwriad y canllaw newydd hwn yw gwireddu'r effaith wirioneddol a chadarnhaol y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei chael ar gyflawni Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant – dull gweithredu a fydd yn cael effaith ystyrlon ar sut mae Cymru'n ymateb i anghenion tymor hir ei phlant ac yn eu diogelu.

Fel pencampwr i blant Cymru, fy uchelgais i yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Ond gwirionedd y sefyllfa yng Nghymru yw bod gormod o blant yn byw mewn tlodi, bod llawer o blant heb gael cyfleoedd i ddatblygu eu doniau a'u potensial, bod plant yn rhy aml heb wybod am eu hawliau, ac er eu bod yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain, bod plant yn aml yn cael eu cau allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac yn methu galw llunwyr penderfyniadau neu'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau i gyfrif.

Dyna pam rwyf finnau wedi bod yn cydweithio ag Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc i greu'r fframwaith egwyddorol ac ymarferol hwn a fydd yn galluogi mwy o blant a phobl ifanc i chwarae rhan lawnach mewn gwasanaethau cyhoeddus. Fframwaith yw hwn a fydd yn arwain at well penderfyniadau, gan sicrhau ffocws gwirioneddol ar anghenion penodol plant y gall eu lleisiau gael eu colli neu eu distewi, a chreu amgylchedd lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i'w holl ddefnyddwyr.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi ynghylch unrhyw agwedd ar y canllaw hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Rwyf am weld Cymru sy'n cydnabod ei phlant a'i phobl ifanc fel dinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'w cymunedau a'r genedl. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i wireddu'r uchelgais hon.

Gyda dymuniadau gorau,

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau/We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats.

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
T 01792 765600 F 01792 765601

post@complantcymru.org.uk
post@childcomwales.org.uk
www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk

Gwireddu hawliau i holl blant Cymru

# Y FFORDD GYWIR

## **Dull Gweithredu** seiliedig ar Hawliau Plant yng **Nghymru**

**Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant** yn fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



# Y FFORDD GYWIR

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gomisiynydd Plant Cymru: Pam Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant? | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Hawliau dynol plant | 4 |
| 'Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant' | 6 |
| Gwreiddio hawliau plant | 6 |
| Cydraddoldeb a Dim Camwahaniaethu | 8 |
| Grymuso plant | 10 |
| Cyfranogiad | 12 |
| Atebolrwydd | 13 |
| Diweddglo | 15 |




# PAM DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT YNG NGHYMRU

Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Fel pencampwr plant Cymru** fy uchelgais i yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Yn 2017 mae llawer iawn o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn byw bywydau diogel, hapus ac actif, ac yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad a pharch gan yr oedolion o'u cwmpas. Fodd bynnag, er gwaethaf holl ymdrechion y sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, mae llawer i'w wneud o hyd i wireddu hawliau holl blant Cymru.

Mae gormod o blant yn byw mewn tlodi, heb dderbyn y gwasanaethau na'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i fod yn iach, i gael addysg dda, ac i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Dyw'r plant hyn ddim yn derbyn yr hawliau dynol y dylent eu cael o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). **Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu y bydd sefydliadau'n rhoi blaenoriaeth i hawliau plant yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd i wella bywydau plant.**

Mae llawer o blant heb gael cyfleoedd i ddatblygu eu doniau a'u potensial, ac maen nhw'n wynebu camwahaniaethu oherwydd eu cefndir, neu oherwydd eu bod yn blant. **Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i wneud yn fawr o'u doniau a'u potensial.**

Yn rhy aml dyw plant ddim yn gwybod bod ganddyn nhw hawliau, sy'n golygu eu bod nhw'n methu manteisio ar yr hawliau sydd ganddyn nhw. **Mae Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu bod plant yn cael mynediad i wybodaeth ac adnoddau i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar eu hawliau.**

Er eu bod nhw'n arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain, mae plant yn aml yn cael eu cau allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. **Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu bod plant yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu bywydau.**

Mae plant yn aml yn methu galw'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, neu'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau, i gyfrif. **Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu bod awdurdodau ac unigolion yn atebol i blant am eu penderfyniadau, ac am ganlyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant.**

Mae fy ngwaith i yn cael ei dywys gan CCUHP ac rwy'n ymdrechu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn yng Nghymru. Rwyf wedi creu'r canllaw hwn gyda chyngor arbenigol gan Arsyllfa Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru (ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe) er mwyn annog gwasanaethau cyhoeddus ar draws y wlad i ymrwymo i CCUHP a gwella sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau o ganlyniad. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch ffyrdd o wreiddio hawliau dynol plant mewn sefydliadau a manteision gwneud hynny. Hefyd mae'n cynnwys rhai enghreifftiau o ymarfer sy'n ysbrydoli, sy'n dangos mor flaengar yw rhai sefydliadau o ran gwireddu hawliau plant yng Nghymru.

Rwyf fi am weld Cymru sy'n cydnabod plant a phobl ifanc fel dinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'w cymunedau ac i'r genedl. Rwy'n sicr y bydd y canllaw hwn yn rhoi i blant a phobl ifanc y sgiliau a'r cyfleoedd i wneud hynny, gan sicrhau, yn ei dro, bod newidiadau gwirioneddol yn digwydd i ansawdd bywyd pob dydd plant a'u cyfleoedd cyfartal i wireddu eu potensial.

# CYFLWYNIAD

**Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant** yn fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yn CCUHP. Mae'n golygu sicrhau bod CCUHP yn y canol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, ac integreiddio hawliau plant i bob agwedd ar lunio penderfyniadau, polisi ac ymarfer.

Mae polisi a deddfwriaeth plant yng Nghymru wedi'u seilio ar CCUHP. Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* fel ei gilydd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cyfrannu at wireddu hawliau plant. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn, a bydd yn helpu cyrff sector cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Yn yr un modd, mae gan amrywiaeth o sefydliadau yn y sectorau preifat ac anllywodraethol yng Nghymru ran bwysig i'w chwarae wrth roi gwasanaethau plant ar waith, ac felly mae rhwymedigaeth arnynt i gyfrannu at wireddu hawliau plant yn well yng Nghymru. Bydd Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yn helpu sefydliadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus i wireddu hawliau plant.


Mae'r canllaw hwn yn darparu arweiniad egwyddorol a chymorth ymarferol ynghylch Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant o gynllunio a darparu gwasanaethau i blant. Mae'r canllaw yn esbonio hawliau dynol a'u perthnasedd i awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill. Mae'n cyflwyno ffynonellau hawliau dynol a dyletswyddau hawliau dynol, cyn esbonio sut mae rhoi pob un o egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith. Mae'r ffocws yn un ymarferol, ac yn rhoi arweiniad ar weithdrefnau a fydd yn cyflawni hawliau plant.

## Hawliau dynol plant

Mae hawliau dynol yn gwarantu elfennau o ryddid sylfaenol ac yn diwallu anghenion sylfaenol y ddynoliaeth gyfan, wedi'u seilio ar barch at urddas bodau dynol. Mae hawliau dynol yn rhwymo'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ar bob lefel yn y Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n darparu fframwaith moesegol cryf ar gyfer cynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu[12].

Mae gan blant hawl i dderbyn eu hawliau dynol, gan gynnwys y gallu i gael mynediad i'w hawliau a'u hymarfer. Cyflwynir hawliau plant mewn cytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR). Mae hawliau plant yn rhywbeth y dylen nhw eu cael, nid rhywbeth dewisol. Mae plant 0-17 oed yn cael amddiffyniad arbennig o ran hawliau dynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yn 1991 cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol y byddai'n sicrhau bod pob plentyn yn y Deyrnas Unedig yn derbyn yr holl hawliau sydd wedi'u rhestru yn y confensiwn trwy gadarnhau CCUHP. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn sail ar gyfer llunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Cryfhaodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddull gweithredu seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru ac adeiladu arno wrth lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan osod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau Gweinidogol.




Mae CCUHP yn cydnabod bod plant mewn sefyllfa wahanol i oedolion, gydag anghenion gwahanol yn aml, a bod plant yn wynebu heriau penodol oherwydd bod plentyndod yn cynnwys cyfnodau o ddatblygiad corfforol neu emosiynol. Mae Rhan 1 o CCUHP yn cynnwys 41 o erthyglau, sy'n gwarantu set gynhwysfawr o hawliau i blant. Mae Erthygl 42, yn Rhan 2 o CCUHP, yn gofyn bod y Wladwriaeth, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, yn sicrhau bod CCUHP yn hysbys ar lefel eang ymhlith plant ac oedolion. Mae gweddill Rhan 2, a Rhan 3 o CCUHP, yn delio gyda chyfrifoldebau monitro ac adrodd i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r hawliau a nodir yn CCUHP yn fesur diogelu ychwanegol ar gyfer diogelwch a datblygiad plant, ac yn cefnogi eu gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol. Mae holl erthyglau'r confensiwn yn trafod tair prif thema:
**Cyfranogiad, Darpariaeth a Diogelu.**

Mae'r erthyglau **Cyfranogiad** wedi'u seilio ar y syniad o blentyn neu berson ifanc fel rhywun sy'n gwneud cyfraniad gweithredol i'r gymdeithas, fel dinesydd ar hyn o bryd, yn hytrach na bod yn rhywun sydd ond yn derbyn triniaeth dda neu ddrwg gan eraill.

Mae erthyglau **Darpariaeth** yn cwmpasu hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu. Mae'r rhain yn amrywio o ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i addysg ac amgylchedd sy'n caniatáu i blant ddatblygu. Mae'r Confensiwn yn eglur mai'r lle gorau i blentyn fel arfer yw gyda'r teulu, a bod dyletswydd ar y Llywodraeth i gefnogi a chynorthwyo rhieni, ond i ddarparu gofal arbennig pan fydd plant yn methu byw gyda'u rhieni.

Mae erthyglau **Diogelu** yn delio gydag ecsbloetio plant a phobl ifanc yn y gwaith; cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol; camwahaniaethu a chamdriniaethau eraill y mae llawer yn dal i'w dioddef, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig. O dan y Confensiwn mae dyletswydd ar Lywodraethau i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u helpu i ailsefydlu, os bydd angen.

Pwyllgor o arbenigwyr sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad CCUHP yw'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn[3]. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau rheolaidd i adolygu ac asesu'r cynnydd tuag at wireddu hawliau plant gan lywodraethau ar draws y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud awgrymiadau i helpu llywodraethau i wireddu hawliau plant yn well. Cyflwynir y rhain mewn dogfennau o'r enw Sylwadau Cyffredinol[4].

# ‘DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT’

Datblygwyd y model sy’n cael ei gyflwyno yn y canllaw hwn gyda golwg ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae’n rhoi sylw i’r themâu sy’n dod i’r amlwg yn gyson fel rhai hanfodol ar gyfer Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant sydd wedi’i wreiddio yn CCUHP. Bydd gan lawer o awdurdodau eisoes weithdrefnau sy’n cyfateb i Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant: bydd mynd ati’n aml i fabwysiadu’r egwyddorion a’r arferion isod yn cydweddu â’r hyn sydd eisoes yn gweithio neu’n ei wella.

Mae polisi a deddfwriaeth plant yng Nghymru wedi’u seilio ar CCUHP. Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)* 2015 yn rhoi sylw i’r CCUHP wrth weithredu eu swyddogaethau gweinidogaethol.

Egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant[5] yw:

- **Gwreiddio hawliau plant**
- **Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu**
- **Grymuso plant**
- **Cyfranogiad**
- **Atebolrwydd**

## Gwreiddio hawliau plant

Dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae angen i CCUHP gael ei integreiddio i bob agwedd ar wneud penderfyniadau trwy weithdrefnau a chamau gweithredu. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae hyn yn galw am gydnabod CCUHP fel fframwaith ar gyfer gwasanaethau sy’n effeithio ar blant. Dylai hawliau plant dywys penderfyniadau a chamau gweithredu sy’n cael effaith sylweddol ar fywydau plant mewn meysydd megis addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol, ond hefyd mewn meysydd eraill fel cynllunio, trafnidiaeth a’r amgylchedd. Dylai fod cydlynu ar draws adrannau, a chyda sefydliadau allanol i sicrhau bod egwyddorion ac ymarfer Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cael eu cymhwyso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad sy’n effeithio ar y plentyn (fel mae Erthygl 3 o CCUHP yn gwarantu). Dylai polisi, gweithdrefnau a chamau gweithredu, yn ogystal â chyllidebau, gael eu datblygu a’u gweithredu gan roi sylw i’w heffaith ar hawliau plant. Dylai fod yn glir ac yn dryloyw ble mae hawliau plant wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, dylai awdurdodau geisio:

- **Cyfeirio'n benodol at CCUHP** fel fframwaith ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ym mhob datganiad polisi pwysig neu ddogfennau eraill sy'n cyflwyno gweledigaeth neu amcanion allweddol yr awdurdod (e.e. y cynllun corfforaethol). Dylai hyn ddod o lefel uchaf awdurdod. Er enghraifft: datganiad polisi, mabwysiadu siarter neu adduned (neu offeryn arall).
- **Sicrhau bod yr arweinyddion a'r staff,** y mae gofyn eu bod nhw'n rhoi'r ymrwymiad ar waith, yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn ac yn gyfarwydd â CCUHP.
- **Datblygu strategaeth neu gynllun** sy'n nodi sut mae bwriad i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau er mwyn hwyluso Dull Gweithredu cydlynus seiliedig ar Hawliau Plant ar draws adrannau a chyda sefydliadau allanol.
- **Cyflwyno gweithdrefnau** i wireddu hawliau plant, gallai'r rhain gynnwys:
  - **datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y staff,** yn nodi sut mae'r sefydliad yn bwriadu datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant.
  - **datblygu a defnyddio dangosyddion perfformiad** sy'n adlewyrchu hawliau plant (e.e. dylen nhw gael eu hymgorffori mewn cynlluniau busnes, wrth gyllidebu, ac mewn cynllunio strategol arall).
  - **asesiad effaith o ran hawliau plant,** h.y. gwirio effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol unrhyw benderfyniadau polisi a chyllidebol ar blant (neu integreiddio asesiad hawliau plant i'r Asesiad Effaith o ran Cydraddoldeb);
  - **cyflwyno gweithredu hawliau plant** fel eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd strategaeth allweddol;
  - **gofyn bod cyfarfodydd** neu grwpiau polisi strategol yn derbyn adroddiad cynnydd ar weithredu hawliau plant.
- **Blaenoriaethu hyfforddiant ar hawliau plant** i'r holl staff, gyda dwysedd yr hyfforddiant yn cydweddu â chyd-destun a rôl yr aelod o staff dan sylw.
- **Nodi unigolion allweddol a/neu sefydlu tîm** sy'n gyfrifol am hybu hawliau plant o fewn yr awdurdod a gweithredu fel hyrwyddwyr hawliau dynol plant, fydd ar gael i gefnogi eraill i ddatblygu a gweithredu polisi ac ymarfer.
- **Cynnal archwiliad cychwynnol ac yna** yn rheolaidd o'r holl ddatganiadau polisi pwysig neu ddogfennau eraill i asesu cydymffurfiaeth â'r uchod.
- **Cynnal gwerthusiad cychwynnol ac yna un parhaus** o lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch hawliau plant ymhlith y staff ar bob lefel.
- **Blaenoriaethu diogelu hawliau plant trwy gomisiynu**, ac ymgorffori egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar hyd y cylch comisiynu.
- **Dylai fod ymrwymiad clir i sicrhau bod** adnoddau dynol ac ariannol digonol yn cael eu dyrannu i gefnogi'r sefydliad i roi hawliau plant ar waith.



### Astudiaeth Achos:

Mae Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu Siarter Hawliau Plant, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. Mae'n cyflwyno 10 ymrwymiad trosfwaol i hawliau plant, sydd fel ei gilydd yn adlewyrchu gwahanol erthyglau yn CCUHP. Mae'r siarter wedi cael ei chadarnhau gan arweinyddion y Bwrdd Iechyd, a bydd yn cael ei defnyddio'n ganllaw er mwyn i'r holl staff, cynllunio a gweithredol, ddarparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Ers cyflwyno'r siarter, mae'r Bwrdd wedi penodi arweinydd ym maes hawliau plant sy'n gweithio'n agos gyda'r uwch-reolwyr i roi'r ymrwymiad ar waith. Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau llunio gweithdrefnau a fydd yn gwireddu hawliau plant, gan weithio'n agos gydag Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys pecynnau gwybodaeth a hyfforddiant i'r holl staff, ac yn trafod offer polisi i fonitro a gwerthuso cynnydd o ran sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu Panel Plant i gynghori'r awdurdod ar faterion plant ym maes gofal iechyd.




## Cydraddoldeb a Dim Camwahaniaethu

Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u bywydau a'u doniau, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn ddioddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu. Mae cydraddoldeb yn golygu trin pob plentyn yn deg, a rhoi cyfleoedd ac adnoddau iddyn nhw yn ôl eu hanghenion, mewn modd sy'n gyfartal ag eraill, a sicrhau eu bod yn gallu datblygu hyd eithaf eu potensial. Dylai awdurdodau fod yn ymwybodol hefyd y gall camwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol effeithio ar blant, a sicrhau nad yw polisïau ac ymarfer yn camwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl ifanc o dan 18 oed. Mae hybu cydraddoldeb yn golygu cymryd camau i drechu camwahaniaethu. Mae dim camwahaniaethu yn hawl o dan CCUHP (Erthygl 2). Ni ddylai plant ddioddef camwahaniaethu fel unigolion nac fel grŵp, a rhaid i awdurdodau fod yn ymwybodol o effaith niweidiol camwahaniaethu lluosog: pan fydd plentyn yn wynebu camwahaniaethu ar fwy nag un sail (e.e. plentyn anabl sy'n byw mewn tlodi). Dylai awdurdodau fod yn ymwybodol o'r rhwystrau niferus sy'n llesteirio mynediad i wasanaethau, gan gynnwys rhai sosio-economaidd, sefydliadol a diwylliannol, a dylent fod yn barod i ymateb i sefyllfa plant sy'n destun camwahaniaethu a thriniaeth annheg, y bydd angen cymorth arbennig arnynt i fwynhau eu hawliau dynol. **Dylai'r awdurdodau ddeall bod penderfyniadau a wneir heddiw yn gallu cael effaith ar genedlaethau o blant yn y dyfodol trwy gamwahaniaethu.**

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, dylai awdurdodau geisio:

- **Cynnwys ymrwymiad clir i hybu cydraddoldeb** a mynd i'r afael â chamwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol (gan gynnwys camwahaniaethu lluosog) yn erbyn plant a grwpiau penodol o blant ym mhob datganiad polisi arwyddocaol neu ddogfennau eraill sy'n cyflwyno gweledigaeth neu amcanion allweddol yr awdurdod (e.e. y cynllun corfforaethol).

- **Gwneud yr holl staff yn ymwybodol** y gall camwahaniaethu arwain at ganlyniadau annheg ac anghyfartal, a bod angen sicrhau dealltwriaeth gyffredinol gan staff, defnyddwyr gwasanaeth a phlant eu hunain o oblygiadau camwahaniaethu yn erbyn plant.

- **Sicrhau bod staff** yn deall yr angen am roi sylw i effaith penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys unrhyw effeithiau camwahaniaethol.
- **Casglu data perthnasol,** gan gynnwys data a ddadelfennwyd, er mwyn medru adnabod camwahaniaethu neu anghydraddoldebau wrth wireddu hawliau plant, a nodi plant sydd, neu a allai fod, yn dioddef camwahaniaethu.
- **Datblygu blaenoriaethau, targedau a rhaglenni** gweithredu priodol i leihau camwahaniaethu yn erbyn grwpiau a eithriwyd, sydd ar gyrion cymdeithas, o dan fantais ac yn agored i niwed, a hybu cydraddoldeb i'r grwpiau hyn.
- **Cynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant** mewn unrhyw asesiad effaith ar gydraddoldeb (gan drin oed fel nodwedd a amddiffynnir), lle nad oes gweithdrefn ar wahân ar gyfer Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA).
- **Trwy ddefnyddio CRIA neu Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA),** sicrhau bod plant yn ymwneud â gwirio pob penderfyniad cyllidebol sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol arnyn nhw.
- **Darparu gwybodaeth i blant** i gefnogi eu hymwneud ag unrhyw rai o'r gweithdrefnau uchod, a hynny mewn iaith neu fformat sy'n briodol ar gyfer eu hoed a'u haeddfedrwydd, eu diwylliant, neu eu hanabledd.
- **Gofyn bod gwasanaethau a gomisiynir** yn cael eu darparu mewn ffyrdd sydd ddim yn camwahaniaethu yn erbyn plant unigol na grwpiau o blant.

### Astudiaeth Achos:
### Herio camwahaniaethu yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr ifanc

Yn 2009 holodd yr elusen Achub y Plant rai Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn ardal un o Awdurdodau Lleol Cymru beth fyddai'n eu helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Awgrymodd y bobl ifanc sefydlu fforwm i drafod materion sy'n bwysig iddyn nhw ac i feithrin eu hyder, eu sgiliau a'u dyheadau. Ariannwyd y prosiect yn wreiddiol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), ond daeth yn rhan o ariannu craidd y Gwasanaeth Addysg Teithwyr dair blynedd yn ôl, gan gynnig cefnogaeth i blant Sipsiwn a Theithwyr ym mhob ysgol ar draws yr awdurdod lleol.
Yn draddodiadol yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, mae menywod ifanc wedi cael eu hannog i briodi'n ifanc. Fodd bynnag, mae annog a chefnogi'r menywod ifanc hyn (er enghraifft, trwy brosiectau mentora cyfoedion) i aros yn hwy ym myd addysg a chyflawni cymwysterau, wedi golygu eu bod yn gallu dewis os ydyn nhw am briodi'n ifanc neu chwilio am waith. Bu gwelliant sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol cyffredinol Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn yr ardal, gyda mwy o bobl ifanc yn cyflawni TGAU lefel 1 a 2.

Mae'r gwasanaeth yma hefyd yn cefnogi plant Sipsiwn a Theithwyr i ymwneud â dylanwadu ar benderfyniadau yn ardal yr awdurdod lleol, yn ogystal ag ar lefel Cymru gyfan, ac mae'r gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn addysgu plant a'u teuluoedd am ddemocratiaeth a dinasyddiaeth. Mae plant yn cael eu cefnogi i ymwneud ag amrywiaeth o wahanol fforymau, o gynghorau ysgol, i fforwm ieuenctid y sir, panel Comisiynydd yr Heddlu a Fforwm Teithio Ymlaen Cymru Gyfan. Mae'r plant hefyd yn ymwneud â phrosesau recriwtio staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn mynd i'r ysgolion gyda'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr i herio stereoteipiau ynghylch y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ac mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddog Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion hefyd yn siarad â phobl ifanc ar draws yr ardal ynghylch herio agweddau negyddol at y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhaglen hon o waith wedi llwyddo i leihau lefelau camwahaniaethu yn erbyn plant Sipsiwn a Theithwyr a'u teuluoedd wrth i'r gwasanaethau allweddol gydweithio i greu darlun cadarnhaol o Sipsiwn a Theithwyr a thrwy rymuso pobl ifanc; trwy sicrhau cynnydd yn eu cyrhaeddiad addysgol, eu cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau ac i fod yn rhan o fywyd eu cymuned.

## Grymuso plant

Dylai hawliau dynol rymuso plant. Dylai hawliau plant gael eu gweld fel rhywbeth y dylen nhw eu cael; nid mater dewisol mohonynt. Mae grymuso yn golygu gwella gallu plant fel unigolion, fel eu bod yn medru manteisio'n well ar hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u galw i gyfrif. Dylai plant dderbyn gwybodaeth i gynyddu eu dealltwriaeth o hawliau dynol, a mynediad at adnoddau i'w galluogi i ddefnyddio eu hawliau yn eu bywydau pob dydd. Mae grymuso'n golygu dileu rhwystrau i fynediad plant at wybodaeth neu adnoddau sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau. Mae grymuso'n golygu galluogi plant i wneud dewisiadau ac effeithio ar ganlyniadau iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Mae grymuso'n newid y berthynas rhwng plant ac awdurdodau. Mae'n golygu bod oedolion yn trosglwyddo peth pŵer, neu'r cyfan ohono, i blant, neu'n rhannu pŵer â phlant, fel bod plant yn gallu rheoli a chyfeirio'u bywydau'n well, yn arbennig mewn meysydd lle doedden nhw ddim yn gallu gwneud hynny o'r blaen. Mae'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i blant iau, a dylid ei gweld fel cyfraniad pwysig at ddatblygiad y plentyn (sy'n cael ei warantu o dan Erthygl 6 o CCUHP). Gall fod yn arbennig o berthnasol i blant sy'n aelodau o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion, neu sydd o dan anfantais.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, dylai awdurdodau geisio:

- **Adolygu gwasanaethau ac adnoddau** i ganfod rhwystrau i fynediad plant, gan gynnwys mewn cydweithrediad â phlant fel defnyddwyr gwasanaeth, yn arbennig yng nghyswllt gwasanaethau i grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio/ar y cyrion neu o dan anfantais.

- **Datblygu blaenoriaethau, targedau a rhaglenni** gweithredu priodol sy'n galluogi pob plentyn i ddatblygu eu galluoedd a chael mynediad i adnoddau sy'n cynnal gwireddu eu hawliau dynol (er enghraifft, iechyd, addysg neu chwarae).

- **Rhoi i blant gyfleoedd a sgiliau** i ymgysylltu â phrosesau a mecanweithiau polisi, (gan gynnwys comisiynu), trwy gynnig hyfforddiant neu wybodaeth sy'n hwylus i blant (yn ôl oed/gallu) a sefydlu canllawiau clir ar gyfer sut bydd plant yn dylanwadu ar benderfyniadau.

- **Casglu data perthnasol,** gan gynnwys data a ddadelfennwyd a data arhydol, ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i blant, yn arbennig yng nghyswllt grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio/sydd ar y cyrion neu sydd o dan anfantais, a sicrhau bod hyn ar gael i blant.

- **Rhoi cyfleoedd i blant** weithredu ar y cyd i ddatblygu syniadau a cynigion, i gymryd camau, ac i ddylanwadu ar benderfyniadau.

- **Mynd ati'n rhagweithiol i nodi cyfleoedd i blant** wneud penderfyniadau yn ôl eu hoed a'u haeddfedrwydd, gan gynnwys cyfleoedd i wneud dewisiadau pwysig sy'n trawsnewid eu bywydau, a rhoi gwybod i blant am y cyfleoedd hyn.

- **Darparu gwybodaeth, hyfforddiant** ac addysg hygyrch i blant er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau dynol.

- **Darparu gwybodaeth hygyrch i blant ynghylch darparwyr hawliau** dynol annibynnol, gwasanaethau eiriolaeth a chyngor cyfreithiol proffesiynol.

- **Sicrhau bod adnoddau'n cael eu pennu mewn cyllidebau** i gefnogi cyfleoedd addysg, hyfforddiant a datblygu ar gyfer plant.

## Astudiaeth Achos: Comisiynwyr Ifanc

Cawn enghraifft hanesyddol o rymuso plant gan Gyngor Ieuenctid yng Nghymru. Cefnogodd y Cyngor Ieuenctid, ynghyd â Barnado's a Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor, 28 o blant i ddod yn Gomisiynwyr Ifanc oedd wedi derbyn hyfforddiant AQA. Buon nhw'n ymwneud â chomisiynu prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, a chawson nhw gyfle i ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch sut roedd peth o'r £29 miliwn oedd ar gael yn cael ei wario. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: http://archive.thesprout.co.uk/en/news/cardiff-yountional-award/11413.html

## Uned Hawliau Plant (CRU)

Mae awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru wedi ariannu uned hawliau plant, a sefydlwyd i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu a'u diogelu. Trwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant mae'r Uned yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn ymwybodol o'u hawliau, ac yn eu rhoi mewn sefyllfa i fedru mynnu cael eu hawliau, neu wneud cyfraniad i weithrediad sefydliadau sy'n cael effaith ar fywydau plant, a fu'n draddodiadol yn barthau oedolion yn unig. Er enghraifft, mae Prosiect Ymddiriedolwyr Ifanc yr Uned yn darparu hyfforddiant, 'Paratoi i fod yn aelod o'r bwrdd' i bobl ifanc 15-25 oed ar faterion llywodraethiant ac arweinyddiaeth. Hyd yma, mae dros 60 o blant a phobl ifanc wedi dilyn yr hyfforddiant, ac mae dros 30 o blant ar fyrddau sefydliadol fel Undeb Rygbi Cymru, Uned Ddiogel Hillside a'r Uned Hawliau Plant ei hun. Trwy roi i blant y sgiliau angenrheidiol i fod yn aelodau o fyrddau sefydliadol, mae'r Uned wedi cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion, ac wedi eu galluogi i fod yn rhan o benderfyniadau ar y lefel uchaf, gan wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant, yn ogystal ag oedolion.



## Cyfranogiad

Ystyr cyfranogiad yw gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn. Dylai pob plentyn gael cefnogaeth i fynegi barn yn rhydd; dylen nhw gael eu clywed a chael gwrandawiad. Dylai eu barn gael ei chymryd o ddifri wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eu bywydau (fel sy'n cael ei warantu o dan Erthygl 12 o CCUHP). Gall cyfranogiad ddigwydd mewn gwahanol ffurfiau, sy'n briodol ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Dylai plant gael eu cefnogi i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n cyfrannu at fywydau eu teulu ac yn dylanwadu ar ffurf y cymunedau lle maen nhw'n byw a'r gymdeithas ehangach. Bydd angen rhoi ystyriaeth i farn plant a rhoi pwys ar eu safbwynt ar sail eu hoed a'u haeddfedrwydd, ond nid yw oed ifanc nac anaeddfedrwydd cymharol yn rheswm dros ddiystyru barn plant na rhoi llai o sylw iddyn nhw mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Dylai plant dderbyn gwybodaeth lawn a chael cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau. Dylai fod yn eglur sut mae plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau a sut mae eu barn wedi derbyn sylw, gyda'r blant a fu'n rhan o'r broses yn derbyn adborth bob tro. Ni ddylai cyfranogiad gael ei ystyried yn ddiben ynddo'i hun, ond yn hytrach fel proses ddiogel, sy'n galluogi ac yn cynnwys, ac sy'n cefnogi deialog rhwng plant a gweithwyr proffesiynol. Dylai rhwystrau i gyfranogiad gael eu nodi a'u dileu.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, dylai awdurdodau geisio:

- **Cynnwys ymrwymiad clir i gyfranogiad plant** ym mhob datganiad polisi pwysig neu ddogfennau eraill sy'n cyflwyno gweledigaeth neu amcanion allweddol yr awdurdod (e.e. y cynllun corfforaethol) a mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.
- **Cynnal asesiad cychwynnol a rheolaidd o gyfranogiad plant** ar draws holl feysydd swyddogaethau awdurdod cyhoeddus. Penderfynu ar ba lefel bydd cyfranogiad yn digwydd mewn gwahanol bolisïau a gweithdrefnau. Gall model cyfranogiad helpu i ddiffinio hyn ac egluro'r lefel o berchnogaeth a fydd gan bobl ifanc yn y broses.
- **Blaenoriaethu cyfranogiad plant ar hyd y cylch comisiynu.**
- **Datblygu blaenoriaethau, targedau a rhaglenni gweithredu priodol i gynyddu cyfranogiad,** yn arbennig ymhlith grwpiau sydd wedi'u heithrio/ar y cyrion neu o dan anfantais fel arall.
- **Cynnwys plant yn uniongyrchol wrth ddylunio,** monitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau, a chynnwys plant wrth wirio pob polisi a chyllideb sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol arnyn nhw, gan gynnwys CRIA neu EIA.
- **Nodi mannau diogel a chyfle,** gan gynnwys amser, i blant gyfranogi.
- **Cynnwys plant wrth recriwtio'r holl staff** sydd â chyfrifoldebau sy'n cael effaith ar blant.
- **Darparu adborth i blant a staff ynghylch canlyniadau ymwneud plant** ag unrhyw weithdrefnau a nodwyd uchod, gan amlygu'n rhagweithiol unrhyw newidiadau a/neu fanteision a ddaeth yn sgîl eu cyfranogiad.
- **Darparu gwybodaeth i blant i gefnogi eu hymwneud** ag unrhyw weithdrefnau a nodwyd uchod, mewn iaith neu fformat sy'n briodol ar gyfer eu hoed a'u haeddfedrwydd, eu diwylliant, neu eu hanabledd.
- **Sicrhau bod adnoddau wedi'u** pennu mewn cyllidebau i gefnogi cyfranogiad.



## Astudiaeth Achos: Proses Cyllideb yr Awdurdod Lleol

Gwahoddwyd dros 100 o blant a phobl ifanc (7-18 oed) o ysgolion cynradd ac uwchradd lleol mewn awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn rhan o sgwrs fawr y Cyngor ynghylch ei gyllideb. Hwn oedd trydydd ymgynghoriad blynyddol y Cyngor ar y gyllideb gyda phlant a phobl ifanc yn y ddinas. Swyddogion y ddinas a gychwynnodd y cyfranogiad fel rhan o bolisi cyffredinol o roi sylw dyledus i CCUHP wrth lunio polisi.  Datblygodd swyddogion y Cyngor offer ymgynghori er mwyn ymgysylltu â chyfanswm o 114 o ddisgyblion o ysgolion cynradd ac uwchradd cyn y gyllideb. Er enghraifft, roedd un gweithdy yn rhoi deg pennawd cyllideb i'r cyfranogwyr, gydag adnoddau wedi'u dyrannu ar gyfer pob un. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried beth bydden nhw'n ei wneud yn sefyllfa'r Cyngor petai rhaid iddyn nhw dorri 20 y cant o'r gyllideb. Disgrifiodd y cyfranogwyr y rhesymeg y tu ôl i unrhyw doriadau roedden nhw'n eu hawgrymu, neu ddiogelu gwariant mewn rhai meysydd. Yn yr ymgynghoriad hwn, gofynnodd y Cyngor am gyngor plant a phobl ifanc ynghylch beth ddylai gael ei flaenoriaethu wrth i'r Cyngor leihau'r gyllideb gyffredinol. Mae'n enghraifft o sut gall plant gael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau os yw adnoddau'n gyfyngedig a heb fod ar gael o reidrwydd i hybu hawliau plant, ond lle mae modd gwireddu hawliau plant yn well trwy ailgyfeirio neu gadw cyllid ar gyfer gwasanaethau penodol.

## Atebolrwydd

Mae hawliau dynol plant yn creu rhwymedigaethau sy'n galw am atebolrwydd. Dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau. Dylai plant dderbyn gwybodaeth a gallu cael mynediad i weithdrefnau sy'n eu galluogi i holi a herio'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae atebolrwydd yn galw am fonitro safonau hawliau plant yn effeithiol, yn ogystal â chael hyd i atebion effeithiol os methir â chyrraedd y safonau hyn. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae angen i awdurdodau fod yn dryloyw a chynnig rhesymau dros eu penderfyniadau a'u camau gweithredu. Rhaid i Awdurdodau, a phob aelod o staff sydd â chyfrifoldebau sy'n cael effaith ar blant, ddeall bod gan blant hawliau dynol a bod rhwymedigaeth arnyn nhw i barchu, amddiffyn a chyflawni[6] hawliau plant. Dylai pawb dan sylw ddeall eu bod yn atebol i blant am gyflawni'r rhwymedigaeth hon. Dylai plant gael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau dynol, a dylen nhw dderbyn gwybodaeth i ddeall cyfrifoldebau a rhwymedigaethau awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill. I sicrhau unrhyw un o'u hawliau dynol, rhaid i blant wybod y dylen nhw fod yn ei derbyn a gallu mynd ati i'w mynnu'n weithredol, gan gynnwys cyflwyno cwyn neu herio penderfyniadau a chamau gweithredu. Ystyr atebolrwydd yw galw llunwyr penderfyniadau i gyfrif, ac mae hynny'n golygu bod angen gwybodaeth a data ynghylch perfformiad yn erbyn safonau hawliau plant.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith dylai awdurdodau geisio:

- **Cynnwys ymrwymiad clir i atebolrwydd** ym mhob datganiad polisi pwysig neu ddogfennau eraill sy'n cyflwyno gweledigaeth neu amcanion allweddol yr awdurdod (e.e. y cynllun corfforaethol).
- **Sicrhau bod atebolrwydd** yn parhau hyd yn oed pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan drydydd parti.
- **Sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau** a'u rhwymedigaethau i blant, gan gynnwys trwy nodi hynny'n benodol mewn disgrifiadau swyddi a pholisïau sy'n rheoli ymddygiad staff.

- **Dylai goruchwylio a rheoli perfformiad staff gynnwys cyfrifoldeb** unigol am hawliau plant, gan gynnwys trwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad unigol fel sy'n briodol.
- **Cyflawni gwaith i fonitro hawliau** dynol plant yn gyson yn ôl safonau hawliau plant, gan gynnwys datblygu dangosyddion perthnasol ar gyfer hawliau dynol plant (y dylid eu datblygu gyda chyfranogiad plant a'u gwneud yn berthnasol i feysydd polisi neu wasanaeth).
- **Cyhoeddi adroddiadau blynyddol** ar berfformiad yn erbyn dangosyddion hawliau plant a lledaenu'r canfyddiadau.
- **Annog monitro annibynnol** ar berfformiad yn erbyn safonau hawliau plant, gan gynnwys trwy wneud plant yn rhan o'r monitro a/neu'r adolygu/archwilio allanol.
- **Darparu gwybodaeth hygyrch i blant** ynghylch mecanweithiau a'r broses ar gyfer gwneud cwynion, a galw'r awdurdod, neu staff unigol, i gyfrif.
- **Darparu gwybodaeth hygyrch i blant ynghylch** sut mae cael mynediad i gyngor, fel gwasanaethau cynghori, gwasanaethau eiriolaeth hawliau dynol neu gyngor cyfreithiol proffesiynol.

### Astudiaeth Achos:
### Proses adrodd yn null y CU

Sefydlodd Awdurdod Lleol yng Nghymru broses adrodd 'yn null y CU', gyda chorff cynrychioliadol o blant a phobl ifanc yn chwarae rôl Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Bu'r bobl ifanc yn asesu hunanwerthusiad Estyn yr awdurdod lleol yn erbyn safonau CCUHP. Yna trefnwyd gwrandawiad cyhoeddus gyda Chyfarwyddwr Addysg yr awdurdod lleol, Pennaeth Perfformiad a Chymuned a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Diogelu. Bu'r bobl ifanc yn gofyn cwestiynau i'r uwch-reolwyr hyn a'r aelod etholedig o flaen cynulleidfa o 50 o gynrychiolwyr. Ar ôl y gwrandawiad cyhoeddus, daeth y bobl ifanc at ei gilydd i greu adroddiad terfynol. Fe wnaethon nhw gysylltu eu holl Sylwadau Terfynol â'r erthyglau perthnasol yn CCUHP, a llunio 30 argymhelliad i'r awdurdod lleol eu cyflawni. Mae eu hargymhellion wedi bod yn gatalydd ar gyfer llawer o newidiadau yng Ngwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno



# DIWEDDGLO

Diweddglo gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Mae buddsoddi mewn hawliau dynol plant yn creu manteision gwirioneddol i sefydliadau, gan gynnwys cyfrannu at alluogi mwy o blant a phobl ifanc i ymwneud yn well â gwasanaethau cyhoeddus, gan arwain at wneud gwell penderfyniadau, sicrhau bod ffocws gwirioneddol ar anghenion penodol plant y gall eu lleisiau gael eu colli neu eu distewi, a chreu amgylchedd lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i'w holl ddefnyddwyr.

Mae hawliau dynol plant yn cael eu cyflawni ar lefel ryngwladol, rhanbarthol a gwladol. Yn aml gwelir CCUHP fel cysyniad haniaethol. Bwriad y canllaw hwn yw dangos yn fyw sut gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gael effaith gadarnhaol wirioneddol ar gyflawni Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar lefel leol ledled Cymru, dull gweithredu a fydd yn cael effaith ystyrlon ar sut mae Cymru'n ymateb i anghenion tymor hir ei phlant ac yn eu diogelu.

Rhaid i ni ymdrechu i sicrhau cyfatebiaeth rhwng egwyddorion ein cyfreithiau a'n polisi â chamau gweithredu ystyrlon sy'n gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd cyflawni Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o CCUHP ac yn ein helpu i feithrin ymhellach ddiwylliant sy'n annog rhoi sylw i effaith yr hyn sy'n digwydd i blant yn y gymdeithas, gan herio arfer drwg a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Mae gwelliannau ymarferol sy'n arwain at ganlyniadau buddiol yn hanfodol os yw hawliau plant i fod yn wirioneddol ystyrlon.

TROEDNODIADAU

[1] Dewch o hyd i'r testunau craidd ar hawliau dynol rhyngwladol yma

[2] Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yma

[3] Gallwch ddarllen sylwadau'r Pwyllgor ar gynnydd o ran Hawliau Plant yn y Deyrnas Unedig yma

[4] Gallwch ddarllen Sylwadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor yma

[5] Nid yw egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wedi'u bwriadu i'w defnyddio mewn unrhyw drefn benodol. Yn hytrach, dylid eu hystyried a'u defnyddio gyda'i gilydd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Yn anochel bydd peth gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae grymuso plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn agos iawn at ddarparu cyfleoedd i blant fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac ni fydd cyfranogiad yn gwireddu hawliau plant ond os yw'n digwydd ar sail egwyddor dim camwahaniaethu a chydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sy'n gorgyffwrdd yn cadarnhau ei gilydd ac yn cyfrannu at ddull gweithredu cyfannol, cydlynus a chynhwysfawr o wireddu hawliau plant

[6] Gall awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill weithio tuag at wireddu hawliau dynol i blant trwy sicrhau eu bod yn:

- **Parchu Hawliau**. Ystyr hyn yw peidio â gwneud dim sy'n ymyrryd â hawliau dynol. Er enghraifft, ni ddylai awdurdodau farnu bod hawliau dynol plentyn yn llai pwysig oherwydd ei fod o dan oed penodol, neu oherwydd eu bod yn rhagdybio beth sydd orau i'r plentyn.

- **Amddiffyn Hawliau**. Ystyr hyn yw ceisio sicrhau nad yw eraill yn amharu ar hawliau dynol. Er enghraifft, trwy weithredu lle ceir tystiolaeth nad yw plant yn derbyn eu hawliau, e.e. lle mae plant yn dioddef camdriniaeth, camfanteisio neu gamwahaniaethu.

- **Cyflawni Hawliau**. Ystyr hyn yw gweithredu i hwyluso mwynhau hawliau dynol, neu wella hynny. Er enghraifft, gwneud plant ac eraill yn ymwybodol o'u hawliau, a sicrhau bod hawliau plant yn cael eu blaenoriaethu'n briodol o safbwynt adnoddau.

**Comisiynydd Plant Cymru**
**Tŷ Ystumllwynarth**
**Ffordd Phoenix**
**Llansamlet**
**Abertawe**
**SA7 9FS**
**01792 765600**

**post@complantcymru.org.uk**
**facebook.com/childcomwales**
**@complantcymru (Trydar)**
**YouTube: commissionerwales**

Cyhoeddwyd: Mawrth 2017